**Tystysgrif Uwch mewn Cymraeg Ail Iaith: Defnyddio'r Gymraeg**

**PRAWF SIARAD ENGHREIFFTIOL**

Ceir manylion llawn am sut yr asesir y Prawf Siarad yn y fanyleb a'r papurau enghreifftiol sydd ar wefan CBAC.

Nid profion byw mo'r enghreifftiau fideo hyn, ond yn hytrach profion a recordiwyd yn benodol i'w dangos i diwtoriaid a darpar ymgeiswyr. Defnyddiwyd y cwestiynau sydd yn y prawf Siarad yn y papur enghreifftiol.

**Cynnwys y prawf**

Mae 4 rhan i'r prawf Siarad, sy'n para tua 25-30 munud.
Bydd pob ymgeisydd yn cael prawf a bydd pob rhan o'r prawf yn cael ei recordio a'i hasesu'n allanol.

Mae'r ymgeisydd yn cael 50 o gyfnod paratoi. Caiff ysgrifennu nodiadau ar daflen yr ymgeisydd a mynd â'r daflen honno i mewn i'r cyfweliad ei hun. Fodd bynnag, ni ddylai geisio sgriptio atebion cyflawn.

Rhan 1: Erthygl. Yma, mae'r cyfwelydd yn gofyn cwestiynau i'r ymgeisydd er mwyn profi dealltwriaeth o'r erthygl.
Asesir cywirdeb a rhuglder yr ymatebion, yn ogystal â gallu'r ymgeisydd i gyfleu dealltwriaeth o 5 pwynt allweddol.

Rhan 2: Hunanbortread. Bydd y cyfwelydd wedi derbyn hunanbortread yr ymgeisydd o flaen llaw (drwy'r ganolfan arholi). Ni fydd yr hunanbortread yn fwy na 300 o eiriau, ac nid yw'r testun ei hun yn cael ei asesu. Bydd y cyfwelydd yn gofyn 5 cwestiwn i'r ymgeisydd a sgil-gwestiynau ar sail y testun.
Asesir cywirdeb ar ymatebion a gallu'r ymgeisydd i ddefnyddio ystod eang o gystrawennau a geirfa briodol.

Rhan 3: Pwnc llosg. Bydd y cyfwelydd a'r ymgeisydd yn trafod y pwnc llosg a ddewiswyd gan yr ymgeisydd (ceir dewis o 2 ar daflen yr ymgeisydd).
Asesir cywirdeb iaith yr ymgeisydd, yn ogystal â'i allu i ryngweithio, gofyn cwestiynau ac i bwyso a mesur dadleuon gwahanol.

Rhan 4: Siarad o brofiad. Yma, rhaid i'r ymgeisydd ddewis o ddau destun, a siarad amdanynt, gan ddefnyddio'r sbardunau i gyd. Mae 5 sbardun dan bob testun, ac asesir gallu'r ymgeisydd i ymateb iddynt i gyd. Yn ogystal, asesir gallu'r ymgeisydd i siarad yn gywir ac i estyn ymatebion yn y rhan hon. Ni fydd y cyfwelydd yn torri ar draws, dim ond i ofyn a yw'r ymgeisydd eisiau dweud unrhyw beth arall.

Mae'r aseswyr allanol hefyd yn rhoi marc argraff, ar sail y prawf cyfan. Bydd pob prawf yn cael ei farcio'n annibynnol gan ddau farciwr allanol.

Ar ddechrau'r prawf, mae'r cyfwelydd yn croesawu'r ymgeisydd i'r ystafell gyfweld ac yn dechrau recordio'r sgwrs gan nodi enw'r ymgeisydd a'r rhif arholiad.  Dim ond yn Gymraeg y disgwylir i'r ymgeisydd a'r cyfwelydd siarad.

**Rhan 1**

Dyma'r cwestiynau ar daflen y cyfwelydd a'r atebion posibl yn y cynllun marcio:

1. Beth ydy'r peryglon mae'r erthygl yn sôn amdanyn nhw?
   Dylai ateb yr ymgeisydd gyfeirio at:
   Yr anafiadau sy'n digwydd i gefn chwaraewyr rygbi wrth chwarae'r gêm.

2. Beth mae'r erthygl yn ei ddweud am rygbi merched?
   Dylai ateb yr ymgeisydd gyfeirio at:
   Yr awgrym fod gêm rygbi merched yn fwy call ac yn fwy diogel,
   ac y gallai gêm y merched ddysgu gwersi i gêm y dynion.

3. Tua faint o bobl sy'n cael eu hanafu, yn ôl yr erthygl?
   Dylai ateb yr ymgeisydd gyfeirio at:
   Y ffaith mai argraff yr awdur sy'n cael ei disgrifio; ei argraff/ei hargraff yw
   bod nifer yr anafiadau wedi codi, ond does dim ffigurau i gadarnhau hynny.

4. Pa reswm posibl dros hynny mae'r erthygl yn ei gynnig?
   Dylai ateb yr ymgeisydd gyfeirio at:
   Mae'n dweud bod yr anafiadau wedi cynyddu achos bod chwaraewyr rygbi yn fwy o faint / yn fwy cyhyrog nag yn y gorffennol, achos eu bod nhw'n treulio  llawer o amser yn codi pwysau.

5. Beth ydy'r ateb i'r broblem, yn ôl yr erthygl?
   Dylai ateb yr ymgeisydd gyfeirio at:
   Yr awgrym fod angen edrych eto ar reolau'r gêm, yn arbennig yn y sgrym/sgarmes.

**Rhan 2**

Mae'r cyfwelydd wedi seilio'r cwestiynau ar yr hunanbortread a anfonwyd gan yr ymgeisydd.

**Rhan 3**

Y dewis i'r ymgeiswyr oedd naill ai: (i) Mae bywyd yn llawer gwell yng nghefn gwlad;  neu (ii) Does dim gwleidyddion da ar ôl.

**Rhan 4**

Dyma'r dewisiadau i'r ymgeiswyr:

Naill ai:

i. Disgrifiwch yr athro/athrawes a gafodd y dylanwad mwyaf arnoch chi.

Soniwch am:
- beth roedd yr athro/athrawes yn ei ddysgu
- beth oedd yn gwneud yr athro/athrawes yma'n wahanol i'r athrawon eraill

- sut basai eich bywyd chi'n wahanol heb ddylanwad yr athro/athrawes yma
- sut roedd myfyrwyr eraill yn ymateb i'r athro/athrawes yma
- beth yw hanes yr athro/athrawes erbyn heddiw

neu:

ii. Disgrifiwch eich swydd gyntaf erioed.
Soniwch am:
- beth oedd y swydd
- pam ceisioch chi am y swydd yma
- beth dych chi'n ei gofio am y cyfweliad
- eich diwrnod cyntaf yn y swydd
- beth fasech chi wedi'i wneud yn wahanol

**Enghraifft 1 – Sheridan ac Aled**

**Sylwadau**

**Rhan 1**

Mae'n llwyddo i ateb y cwestiynau'n briodol ac yn gyflawn i gyd, er ei fod wedi ateb cwestiwn 3 wrth ymhelaethu ar gwestiwn 1 (bod cynnydd yn nifer yr anafiadau wedi bod). Mae'n gwneud ymdrech i fynegi'r atebion yn ei eiriau ei hun bob tro. Mae'n siarad yn gywir gan amlaf, ac yn ei fynegi'i hun yn dda heb ormod o oedi.

**Rhan 2**

Eto, mae e'n siarad yn gywir gan amlaf (er yn gwneud camgymeriadau treiglo niferus) ac yn defnyddio amrywiaeth o gystrawennau a geirfa addas i'r lefel. Mae ganddo eirfa ddigonol i ateb cwestiynau heriol, ac mae e'n ymateb i'r sgil-gwestiynau'n dda hefyd. Sylwer bod y cyfwelydd yn gofyn am fanteision ac anfanteision – bydd y cyfwelydd yn ceisio gofyn am ddwy agwedd ar destun er mwyn rhoi rhagor o gyfleoedd i'r ymgeisydd.

**Rhan 3**

Mae tuedd i'r ymgeisydd gyfeirio at ei brofiadau a'i hoffterau ei hun, ac mae'n llai hyderus wrth drafod manteision ar lefel haniaethol. Mae'n siarad yn gywir gan amlaf ac yn pwyso a mesur dadleuon yn dda ar y cyfan. Tuedda hefyd i ymateb i gwestiynau'r cyfwelydd yn hytrach na rhyngweithio a gofyn cwestiynau.

**Rhan 4**

Mae'n dda iawn wrth estyn ymatebion a chydlynu'r hyn y mae'n ei ddweud, er ei fod ychydig yn oediog yn ei fynegiant. Eto, mae'n siarad yn gywir gan amlaf. Mae'n ateb y rhan fwyaf o'r cwestiynau sbardunau, ond yn osgoi'r sbardun olaf (Beth fasech chi wedi'i wneud yn wahanol?).

Byddai'r marc argraff yn dda iawn; mae'n siaradwr rhugl.

Byddai'r ymgeisydd hwn yn cael marc yn uchel yng nghategori 'Llwyddo' mewn prawf Siarad byw.

**Enghraifft 2 – Anna a Shân**

**Sylwadau**

**Rhan 1**

Mae'r ymgeisydd yn ateb y cwestiynau i gyd yn gyflawn, er nad yw'n cyfeirio at reolau'r sgarmes yn yr ymateb olaf. Er dechrau'n betrus, mae'n ennill hyder yn fuan, ac yn ateb y cwestiynau'n llawn, gan ddefnyddio ei geiriau ei hun. Daw i ben ag araith anunion yn rhwydd, e.e. Yn ôl yr erthygl, mae'n dweud... Mae'r awdur yn credu bod... ac yn y blaen. Mae'n siarad yn raenus ac yn gywir yn gyson, gan ei mynegi ei hun yn rhugl iawn. Mae'n hunangywiro wrth siarad hefyd, sy'n nodweddu ymgeisydd cryf.

**Rhan 2**

Mae'n mynd yn fwy hyderus wrth sôn am ei phrofiadau byw, ac yn trafod pethau digon cymhleth yn fyrfyfyr. Defnyddia amrywiaeth eang o gystrawennau a geirfa, dan reolaeth lwyr. Mae'r cwestiwn olaf yn gofyn am y gorau a'r gwaethaf am y profiad o ddysgu Cymraeg; mae'n ddigon hyderus i ddweud nad oes agweddau negyddol i sôn amdanyn nhw, ac felly'n ateb yn llawn.

**Rhan 3**

Dyma'r rhan lle mae'r ymgeisydd yn rhagori, gan drafod pwnc anodd a rhyngweithio'n ddeallus â'r cyfwelydd. Nid yw'n llwyddo i *ofyn* rhywbeth i'r cyfwelydd, ond eto mae hi'n ymateb yn rhwydd i gwestiynau amrywiol a heriol. Mae'n siarad yn raenus ac yn gywir yn gyson ac yn pwyso a mesur safbwyntiau'n gwbl ddidrafferth.

**Rhan 4**

Mae'n llwyddo i siarad yn raenus ac yn gywir yn gyson, gan estyn ymatebion gan gydlynu'n ddidrafferth. Mae'n ateb y sbardunau i gyd heb fynd drwyddynt fel rhestr ddigyswllt o bwyntiau.

Byddai'r ymgeisydd yn cael marc argraff uchel iawn, gan drafod pynciau cymhleth a haniaethol yn ddidrafferth.

Byddai'r ymgeisydd hwn yn cael marc yn ddiogel yng nghategori 'Rhagoriaeth' mewn prawf Siarad byw.

**

**Crynodeb**

Byddai'r ddau ymgeisydd wedi llwyddo'n ddiogel pe bai hwn yn brawf byw. Mae'r meini prawf yn amrywio yn y rhannau gwahanol, ac mae rôl y cyfwelydd yn amrywio hefyd. Y trothwy llwyddo arferol yw 60% o'r cyfanswm, a'r trothwy arferol i gael Rhagoriaeth yw 80%